Mae Uned Ewrop yn gorff ar draws y sector sy'n anelu at godi ymwybyddiaeth o faterion Ewropeaidd sy'n effeithio ar addysg uwch yn y DU ac i gydlynu cyfraniad y DU i fentrau a thrafodaethau Ewropeaidd. Fe'i lansiwyd yn 2004, ac mae'r Uned yn ceisio cryfhau safle sector addysg uwch y DU yn y trafodaethau ar Broses Bologna a pholisi'r GE. Caiff ei ariannu ar y cyd gan Brifysgolion y DU, y tri chyngor ariannu addysg uwch, Lloegr, Cymru a'r Alban, Gild AU a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA).

Lansiwyd y prosiect Gwella Dysgu ac Ymchwil ar gyfer Cymorth Dyngarol (ELRHA) ym mis Ionawr 2009 gyda chyllid gan y pedwar corff cyllido addysg uwch yn y DU. Nod ELRHA yw creu pont rhwng arbenigedd, gallu ymchwil ac addysgu datblygedig y sector Addysg Uwch ac anghenion newidiol a chymhleth y sector Dyngarol. Caiff y prosiect ei gynnal gan Achub y Plant a'i reoli gan bwyllgor llywio annibynnol sy'n cynrychioli'r cymunedau dyngarol ac Addysg Uwch.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler gwefan Gwella Dysgu ac Ymchwil ar gyfer Cymorth Dyngarol.